# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**Dyddiad:** 14 Tachwedd 2007
**Amser:** 8:30am - 9:30am
**Lleoliad:** Ystafell gynadledda 4B

# AGENDA

## 1. ADNODDAU A THREFN GWASANAETHAU SENEDDOL

**Adnoddau a threfn Busnes y Cynulliad**
Ystyried y blaenoriaethau o ran cynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes i drafod goblygiadau ymarferol/trefniadol y lefel uchel a chynyddol o ran gweithgarwch y pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, a goblygiadau hyn o ran adnoddau. Mae'r papur hwn wedi'i gyhoeddi.

**Datblygu Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad**
Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran sicrhau bod gan Wasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad rôl effeithiol i'w chwarae yn y broses o gyflawni amcanion y Comisiwn. Mae'r papur hwn wedi'i gyhoeddi.

**Papur 1 (AC) 5**
**Papur 2 (AC) 5**

## 2. ADOLYGIAD O GYFLOGAU A LWFANSAU AELODAU'R CYNULLIAD

Nodi'r camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â'r adolygiad o gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Mae'r papur hwn wedi'i gyhoeddi.

**Papur 3 (AC) 5**

## 3. CYDRADDOLDEB

Nodi sefyllfa bresennol Comisiwn y Cynulliad o ran recriwtio staff o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, nodi'r camau sy'n cael eu cymryd yn y maes hwn a nodi'r  Datganiad Cydraddoldeb arfaethedig.  Nid yw'r papur hwn wedi'i gyhoeddi ac ni chafodd ei gytuno yn y cyfarfod.

**Papur 4 (AC) 5**

## 4. CYNALIADWYEDD Y SENEDD

Adroddiad drafft ar gynaliadwyedd y Senedd. Trefnir cyfarfod ar wahân lle bydd partneriaeth BDSP yn rhoi cyflwyniad ar yr adroddiad i'r Comisiynwyr. Nid yw'r papur hwn wedi'i gyhoeddi gan fod yr adroddiad ar ffurf ddrafft.

**Papur 5 (AC) 5**
**Papur 5 atodiad (AC) 5**

## 5. ADRODDIAD Y BWRDD GWEITHREDOL I'R COMISIWN

Ail adroddiad y Bwrdd Gweithredol sy'n nodi cynnydd o ran amcanion strategol y Comisiwn, gweithgareddau a digwyddiadau allweddol ac adroddiad ariannol.  Mae'r papur hwn wedi'i gyhoeddi.

**Papur 6 (AC) 5**

## 6. CYTUNO AR GOFNODION 17 HYDREF 2007

Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd yn gywir.

## 7. PAPURAU I'W NODI

**Adroddiad Interim yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar adeilad y Lanfa – Drafft**
Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i nodi adroddiad interim drafft yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar adeilad y Lanfa. Trefnir cyfarfod ar wahân i drafod hyn. Nid yw'r papur hwn wedi'i gyhoeddi gan fod yr adroddiad ar ffurf ddrafft.

**Papur 7 (AC) 5**

**Gohebiaeth**
Derbyniodd y Llywydd yr ohebiaeth isod ac maent wedi'u cynnwys er gwybodaeth:
- Llythyr gan Ymgyrch Senedd i Gymru – **Papur 8 (AC) 5**
- Llythyr gan Leanne Wood – **Papur 9 (AC) 5**

Nid yw'r llythyrau hyn wedi'u cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol.